



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif: WG45631

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

Rydym yn ceisio eich barn yn yr ymgynghoriad hwn ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.

Dyddiad cyhoeddi: 16 Rhagfyr 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Mawrth 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /  
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

**OGI** © Hawlfraint y Goron

## **Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynnig Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru. Yn benodol, mae'r ymgynghoriad yn ceisio eich adborth ar yr opsiynau posibl ar gyfer cyflwyno'r cynllun

## **Sut i ymateb**

Dylech gyflwyno eich ymateb erbyn hanner nos, dydd Gwener 17 Mawrth 2023, mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein ffurflen ar-lein
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ar-lein a'i hanfon dros e-bost i [TrwyddeduStatudol@llyw.cymru](mailto:TrwyddeduStatudol@llyw.cymru)
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ar-lein a'i hanfon i'r cyfeiriad post isod.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## **Manylion cyswllt**

Am ragor o wybodaeth:

Croeso Cymru – Trwyddedu Statudol  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3UR

E-bost: [TrwyddeduStatudol@llyw.cymru](mailto:TrwyddeduStatudol@llyw.cymru)

## **Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan contract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost:

[Swyddogdiogelwchdata@llyw.cymru](mailto:Swyddogdiogelwchdata@llyw.cymru)

Manylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynnwys

Rhagair.....	6
Cyflwyniad.....	8
Nodau a manteision arfaethedig cynllun trwyddedu statudol .....	10
Gweithredu/Gweinyddu cenedlaethol neu leol .....	13
Mathau o lety sydd o fewn y cwmpas.....	14
Cyfnod gweithredu .....	16
Trwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol .....	16
Gofynion y cynllun .....	17
Cydymffurfio a gorfodi .....	18
Ffioedd trwydded.....	21
Amllder ceisiadau.....	22
Tryloywder a mynediad at wybodaeth .....	23
Arddangos rhifau trwyddedau .....	24
Sylwadau terfynol.....	25
Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad .....	26
Y Camau Nesaf .....	32
Atodiad A – Enghreifftiau o gynlluniau trwyddedu, cofrestru ac ardystio.....	35

## Rhagair

Mae'r economi ymwelwyr yn newid yn gyflym, ac mae rôl llety ymwelwyr yn gysylltiedig â heriau mawr i gymunedau ledled y byd. Mae twf llwyfannau archebu ar-lein wedi dod â llawer o fanteision, megis llwybrau newydd at farchnadoedd a mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r pryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth anghyson â'r gofynion cyfreithiol presennol ac effaith llety gosod tymor byr ar stoc dai a'n cymunedau.

O dan y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, rydym yn ymrwymo i gynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau fel rhan o becyn o fesurau i fynd i'r afael â'r effaith negyddol y gall ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ei chael ar argaeledd a fforddiadwyedd tai i bobl leol yn ein cymunedau. Ym mis Gorffennaf 2022, cadarnhaodd y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru gynlluniau i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety ymwelwyr, gan gynnwys llety gosod tymor byr, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael trwydded gyda'r nod o godi safonau yn y diwydiant twristiaeth.

Cyn hynny, ac yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi bod yn ystyried sut y gallai cynllun o'r fath weithio yng Nghymru. Penodwyd contractwr i gynnal cyfweiliadau a grwpiau ffocws â rhanddeiliaid allweddol o awdurdodau lleol, cyrff cynrychioliadol y sector a gweithredwyr llety ymwelwyr er mwyn ystyried nifer o opsiynau a sut y gellid datblygu unrhyw gynllun a'i roi ar waith yng Nghymru.

Mae llawer o gyrchfannau ledled y byd wedi rhoi system drwyddedu ar waith i hyrwyddo tegwch i bawb yn y sector llety ymwelwyr. Yn y DU, mae ein cymdogion wedi mabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol ac maent ar gamau gwahanol yn eu datblygiad. Yng [Ngogledd Iwerddon](#), mae'n rhaid i ddarparwyr llety gael eu hardystio gan Tourism Northern Ireland er mwyn gweithredu ac mae hyn wedi bod ar waith ers 1992. Mae [Llywodraeth yr Alban](#) wedi cyflwyno deddfwriaeth yn ddiweddar sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gwesteiwr a darparwr llety gosod tymor byr gael trwydded i weithredu, oni bai eu bod wedi'u heithrio'n benodol. Mae'n rhaid i westeiwyr a gweithredwyr presennol wneud cais am drwydded cyn 1 Hydref 2023.

Yn Lloegr, mae cais am dystiolaeth gan yr [Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon](#) ynglŷn â'r potensial i gyflwyno cynllun cofrestru llety i dwristiaid wedi dod i ben yn ddiweddar. Ceir enghreifftiau eraill hefyd, megis y cynlluniau gorfodol a weithredir ar Ynys Manaw ac yng Ngweriniaeth Iwerddon. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y cynllun trwyddedu hwn, rydym am ddysgu o'r gwahanol enghreifftiau hyn, gan gynnwys pa wersi y gellir eu dysgu o gynllun Rhentu Doeth Cymru<sup>1</sup>, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gosod neu'n rheoli eiddo rhent yng Nghymru gael trwydded.

Yn sgil cyfres o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol dros y misoedd diwethaf, rydym bellach yn lansio ymgynghoriad ffurfiol i geisio barn ar ffurf a natur cynllun trwyddedu statudol yma yng Nghymru.

---

<sup>1</sup> [Croeso i Rhentu Doeth Cymru - Rhentu Doeth Cymru \(llyw.cymru\)](#)

Mae'r adborth a gafwyd hyd yma ar rai o'r nodau arfaethedig sy'n sail i gynllun trwyddedu wedi bod yn gefnogol, yn enwedig o ran sicrhau tegwch i bawb, datblygu gwell data, a gwella diogelwch a hyder ymwelwyr. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon ynglŷn â'r baich rheoliadol canfyddedig a all fod yn gysylltiedig â chynllun trwyddedu. Mae hyn yn cynnwys y gwaith a fyddai'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth bod y caniatâd cynllunio perthnasol ar waith ar gyfer llety ymwelwyr, os bydd yn ofynnol cael trwydded, a'r rôl y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae i ateb y galw hwn.

Mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru o'r farn bod cynllun trwyddedu statudol yn cynnig dull gweithredu cadarnach yng Nghymru, sef dull gweithredu sy'n pennu safon glir i ddarparwyr llety ymwelwyr ei gweithredu, gyda phwerau gorfodi ar gael i gymryd camau yn erbyn y rhai nad ydynt yn cydymffurfio. Rydym yn ymwybodol o hyd fod angen i unrhyw gynllun fod yn gymesur a, thrwy'r ymgynghoriad, bydd modd inni gael amrywiaeth o safbwyntiau ar ffurf a chynnwys y cynllun trwyddedu arfaethedig yn y pen draw.

Rydym hefyd yn ceisio barn ynghylch sut y gallai cynllun statudol o'r fath weithredu, ac a ddylai gael ei weithredu'n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru neu'n lleol gan bob awdurdod lleol. Hefyd, rydym yn ceisio casglu barn ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i bob darparwr llety ymwelwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu'n achlysurol iawn neu dim ond ar gyfer digwyddiadau untro, gael trwydded. Rydym hefyd yn ceisio barn ynghylch pa mor aml y dylai trwyddedau gael eu hadnewyddu a pha ffioedd y gellid eu codi am drwydded. Wrth benderfynu ar unrhyw strwythur ffioedd, rydym wrth gwrs yn ystyriol o'r pwysau ar fusnesau yn yr hinsawdd sydd ohoni.

Rydym yn credu bod y rhan fwyaf o ddarparwyr llety ymwelwyr am weithredu'n unol â'r gyfraith. Felly, un o'n nodau yw datblygu cynllun a fydd yn sicrhau lefel uchel o gydymffurfiaeth wirfoddol a system sy'n effeithiol ac yn hawdd ei defnyddio, a hefyd gynnig ffordd o ymdrin â phryderon neu gwynion pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Rydym yn ddiolchgar ichi am roi ystyriaeth i'r ymgynghoriad hwn ac yn croesawu eich barn.

**Vaughan Gething AS,  
Gweinidog yr Economi**

## Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynnig Llywodraeth Cymru i sefydlu cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais glir i sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru gynlluniau i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru, gan gynnwys llety gwyliau tymor byr. Y cynnig yw y dylid ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael trwydded i weithredu, a fyddai'n helpu i godi safonau yn y diwydiant, sicrhau diogelwch ymwelwyr a thegwch i bob gweithredwr.

Cyn hynny, ym mis Ionawr 2021, ar ddechrau'r daith tuag at gynllun o'r fath, gwnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol [ddatganiad ysgrifenedig](#) am ail gartrefi yng Nghymru a oedd yn cynnwys ymrwymiad i ystyried y potensial i sefydlu cynllun cofrestru a / neu drwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety gwyliau, gan gynnwys llety gosod tymor byr.

Roedd hyn yn rhan o ymrwymiad ehangach i ddatblygu'r [dull tair elfen](#) o ymdrin â'r effaith niweidiol y gall crynodiadau mawr o ail gartrefi a llety gwyliau ei chael ar gymunedau, yn ogystal â phryderon nad oes tegwch yn y sector llety gwyliau o ran cynnal safonau iechyd a diogelwch penodol. Un cyfraniad pwysig at y sylfaen dystiolaeth wrth ddatblygu ein syniadau oedd adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 gan yr academydd Dr Simon Brooks ar '[Ail Gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru](#)', a ystyriodd nifer o faterion ac a wnaeth argymhellion ynglŷn â llety gwyliau tymor byr. Un o'r argymhellion oedd datblygu diffiniad cadarnhach o ail gartrefi ac y dylid cyflwyno "*Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Cartrefi Gwyliau*".

Wedyn, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gymryd camau uniongyrchol ac effeithiol gan ddefnyddio'r systemau cynllunio, eiddo a threthiant i fynd i'r afael â'r effaith negyddol y gall ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ei chael ar argaeledd a fforddiadwyedd tai i bobl leol yn ein cymunedau. Fel rhan o hyn, rydym yn gweithio drwy becyn o gamau gweithredu – y mae'r ymrwymiad i gynllun trwyddedu statudol arfaethedig yn un elfen ohono. Wrth inni barhau i ddatblygu'r pecyn o fesurau ynglŷn ag ail gartrefi a llety gwyliau a defnyddio'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf, byddwn yn parhau i adolygu'r holl ffactorau ysgogi sydd ar gael i'w defnyddio a sut y gellir eu defnyddio'n fwyaf effeithiol i gyflawni ein holl amcanion polisi ac osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Mae hyn yn rhan bwysig o'r cyd-destun o ran llywio ein cynigion i ddatblygu a gweithredu cynllun trwyddedu statudol.

Mae [Rhaglen Lywodraethu](#) 2021-2026 yn cynnwys ymrwymiad i ymgynghori ar ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth. Byddai angen rhyw fath o system gofrestru er mwyn hwyluso'r broses o gasglu'r ardoll dwristiaeth. Gallai'r system drwyddedu statudol arfaethedig gael ei defnyddio i hwyluso'r broses o gasglu'r ardoll a helpu i sicrhau bod data cywir ar bob darparwr llety ymwelwyr fel y gellir codi'r arddoll mewn ffordd deg.

Mae [Croeso Cymru](#) eisoes yn gweithredu cynllun graddio ansawdd a chynllun dilysu ar gyfer llety ymwelwyr. Mae cyfranogiad yn wirfoddol, gyda gwahanol gynlluniau ar



gyfer gwahanol fathau o lety. Mae'r cynlluniau hyn wedi bod yn ddi-dâl i ddarparwyr ers 2021.

Ym mis Gorffennaf 2021, comisynodd Llywodraeth Cymru Strategic Research and Insights (SRI) o Gaerdydd i gynnal ymarfer cwmpasu mewn perthynas â sefydlu cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety ymwelwyr. Cynhaliwyd 37 o gyfweiliadau manwl a naw grŵp ffocws, ar-lein neu dros y ffôn, rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021 ag adrannau perthnasol o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cynrychioliadol (e.e. cymdeithasau twristiaeth rhanbarthol, cymdeithasau sector), gweithredwyr llety, a gwledydd neu gyrchfannau eraill sydd wedi cyflwyno cynllun statudol tebyg neu sy'n ystyried gwneud hynny. Hefyd, rhoddwyd cyfle i fusnesau unigol gysylltu ag SRI a daeth 30 o ddarnau o ohebiaeth i law.

Fel ymarfer ar wahân, cynhaliodd SRI hefyd ymchwil ddesg i arferion gyrchfannau eraill sydd wedi cyflwyno cynllun statudol neu'n ystyried gwneud hynny.

Roedd yr ymarfer cwmpasu cychwynnol ar lefel uchel a'r bwriad oedd ystyried yr egwydddorion cyffredinol ynghylch sut beth fyddai cynllun a'r hyn y gallai ei gynnwys – nod yr ymgynghoriad hwn yw ystyried yr opsiynau hynny'n fanylach a chael barn y cyhoedd yn fwy cyffredinol ar y ffordd orau o weithredu.

## **Nodau a manteision arfaethedig cynllun trwyddedu statudol**

Un o brif nodau cynllun trwyddedu statudol yw sicrhau tegwch i bob darparwr llety ymwelwyr sy'n gweithredu yn y sector. Mae'r pryder ynghylch y ffaith nad oes tegwch wedi bod yn destun trafodaeth ers cryn amser. Cododd rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymarfer cwmpasu cychwynol a'r ymchwil ar gyfer y cynnig hwn bryderon nad yw rhannau penodol o'r sector yn bodloni nac yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Bwriedir i gynllun trwyddedu statudol gynnig ffordd o fynd i'r afael â hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr roi tystiolaeth ei fod wedi bodloni gofynion penodol er mwyn gweithredu, megis cael yr yswiriant cywir ar gyfer darparwyr llety, cadarnhad o ganiatâd cynllunio i ganiatáu i'r safle gael ei osod, tystiolaeth o asesiad risg tân, tystysgrif diogelwch nwy, a phrawf o ddiogelwch trydanol, i rhestru ychydig o enghreifftiau.

Bydd y cynllun hwn yn sicrhau bod safon gyson (o ran cyflwyno tystiolaeth ynglŷn â'r gofynion hynny) y bydd yn rhaid i bob weithredwr ei chyrraedd. Mae hyn yn cyfleu neges glir iawn i ymwelwyr bod darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru yn bodloni gofynion penodol o ran safonau a diogelwch.

Byddai cynllun trwyddedu statudol hefyd yn rhoi gwell data a chofrestr gynhwysfawr i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau perthnasol, nad ydynt ar gael ar hyn o bryd, o bwy'n union sy'n gweithredu yn y diwydiant. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cadarnhau faint o ddarparwyr llety ymwelwyr sydd yng Nghymru, nac mewn unrhyw gymuned benodol. Bydd dealltwriaeth o raddfa a natur y sector yn adnodd pwysig yn y ffordd y caiff polisiâu a gwasanaethau eu defnyddio a'u datblygu, naill ai'n lleol neu'n genedlaethol.

Drwy sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr trwyddedig byddai hynny hefyd yn rhoi ffordd i Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, megis awdurdodau lleol, gyfathrebu â darparwyr ar faterion allweddol sy'n ymwneud â'r sector. Gwelsom pa mor heriol ydyw i gyrraedd pob rhan o'r sector drwy ein profiadau diweddar yn ystod pandemig COVID-19.

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd data cywir ar bob darparwr fel rhan o gynllun trwyddedu statudol yn rhoi sylfaen bwysig mewn meysydd polisi eraill. Bydd gwybodaeth gyfredol am raddfa a natur y defnydd o lety ymwelwyr mewn cymunedau yng Nghymru yn helpu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i lywio ystyriaethau polisi, yn lleol ac yn genedlaethol, ynghylch rheoli ail gartrefi, llety ymwelwyr a datblygu seilwaith yr economi ymwelwyr ar sail tystiolaeth. Gellid hefyd ei defnyddio i helpu i gasglu ardoll ymwelwyr, drwy ddarparu data cywir ar bob darparwr llety ymwelwyr a nodi'r rhai sy'n agored i dalu'r ardoll.

Un o'r prif faterion i'w ystyried fu penderfynu ai cynllun cofrestru ynteu cynllun trwyddedu y dylid ei gyflwyno.

Byddai trwydded yn galluogi gweithredwyr i ddarparu llety ymwelwyr yng Nghymru. Er mwyn cael trwydded, byddai angen i ymgeiswyr fodloni'r awdurdod trwyddedu

bod meini prawf penodol wedi cael eu bodloni mewn perthynas â'r llety a darparwr y llety. Cynigir hefyd y byddai trwyddedeion yn cael eu goruchwyllo, er enghraifft drwy arolygiadau a/neu gamau gorfodi, er mwyn sicrhau mai dim ond darparwyr sy'n cyrraedd ac yn cynnal y safonau perthnasol sy'n gweithredu yng Nghymru.

Byddai cofrestr yn rhestr o bersonau sy'n darparu llety ymwelwyr yng Nghymru. Ni fyddai cofrestru yn golygu unrhyw oruchwyliaeth ragweithiol gan awdurdod lleol na Llywodraeth Cymru ond gallai cofrestrriad gael ei ddiddymu pe cheid bod darparwr wedi methu â bodloni gofynion penodol, er enghraifft, ar ôl cwyn.

Rydym yn cynnig cynllun trwyddedu am y bydd yn rhoi hyder i weithredwyr ac ymwelwyr bod pob darparwr llety ymwelwyr yn gweithredu'n unol â'r un gofynion, a fydd yn ei droi yn ennyn mwy o hyder yn yr arlwy twristiaeth.

Mae model tebyg i un Rhentu Doeth Cymru yn cael ei ystyried. Mae Rhentu Doeth Cymru yn helpu'r rhai sy'n gosod neu'n rheoli eiddo rhent yng Nghymru i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn rhoi cyngor ar osod cartrefi diogel ac iach. Gwasanaeth a gynhelir gan Gyngor Cyngor Caerdydd yw Rhentu Doeth Cymru, a'i nod yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth mewn partneriaeth â'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Dynodwyd Cyngor Caerdydd yn awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan gan Lywodraeth Cymru yn 2015.

Mae cynllun Rhentu Doeth Cymru yn cynnwys gofynion cofrestru a thrwyddedu, yn dibynnu ar rôl y landlord. O dan y cynllun, mae'n ofynnol i landlordiaid unrhyw eiddo rhent tymor hir yng Nghymru gwblhau proses gofrestru ar-lein yn gyntaf, sy'n rhoi gwybodaeth amdanynt hwy eu hunain a'u heiddo. Mae angen talu ffi gofrestru hefyd er mwyn cwblhau'r cofrestrriad.

Mae'n rhaid i landlordiaid neu asiantau penodedig sy'n gosod eiddo wneud cais am drwydded gan Rhentu Doeth Cymru. Nid oes angen i landlordiaid nad ydynt yn gosod eiddo eu hunain gael trwydded ond mae'n rhaid iddynt benodi asiant trwyddedig i ymgymryd â'r holl weithgareddau gosod a rheoli ar eu rhan.

Er mwyn cael trwydded, gellir cyflwyno cais ar-lein neu ar bapur i'r awdurdod trwyddedu. Mae'n rhaid i ymgeiswyr gadarnhau eu bod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant a gymeradwyir gan Rhentu Doeth Cymru a gwneud datganiad ynghylch a ydynt yn berson cymwys a phriodol i osod eiddo ar rent. Mae'n ofynnol hefyd dalu ffi gofrestru i gwblhau'r cais.

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn adolygu'r cais ac yn penderfynu a gaiff trwydded ei rhoi. Mae hyn yn cynnwys penderfynu a yw ymgeisydd yn berson cymwys a phriodol i gael ei drwyddedu. Fel rhan o hyn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried a yw'r ymgeisydd wedi cyflawni troseddau penodol, wedi torri cyfreithiau mewn perthynas â thai neu wedi gwahaniaethu yn erbyn rhywun wrth ymgymryd â gweithgareddau llety.

Os rhoddir y drwydded, bydd yr ymgeisydd yn cael rhif trwydded ynghyd â thrwydded ag amodau. Bydd y drwydded yn para am 5 mlynedd a bydd yn rhaid ei hadnewyddu ar ôl y cyfnod hwnnw. Mae'n rhaid i ddeiliaid trwydded ddilyn amodau'r

drwydded a chod ymarfer a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cadw eu trwydded a'i hadnewyddu pan ddaw i ben.

Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am orfodi'r cynllun, a hynny mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a all hefyd ymgymryd â rhai gweithgareddau gorfodi. Mae gweithgareddau gorfodi yn cynnwys rhoi dirwyon, erlyn achosion o ddiffyg cydymffurfio a gwneud cais am orchmynion llys i atal rhent rhag cael ei dalu i landlordiaid neu ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ad-dalu rhent i denantiaid.

**C1 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i sefydlu cynllun trwyddedu fel y disgrifir ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich atebion? Pa effaith, yn gadarnhaol neu'n negyddol, y bydd y cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yn ei chael, yn eich barn chi?**

**C2 Os ydych chi'n anghytuno â'r cynnig i sefydlu cynllun trwyddedu, a ydych chi'n cytuno â chreu cynllun cofrestru ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru?**

- **Cytuno – os ydych chi'n cytuno â chreu cynllun cofrestru, sut y dylai'r cynllun weithredu yn eich barn chi?**
- **Anghytuno – nid wyf am weld cynllun trwyddedu na chynllun cofrestru**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich atebion? Pa effaith, yn gadarnhaol neu'n negyddol, y bydd y cynllun cofrestru ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yn ei chael yn eich barn chi?**

**C3 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol fel y disgrifir yn sicrhau tegwch i bob darparwr llety sy'n gweithredu yng Nghymru?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?**

**C4 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen i Lywodraeth Cymru lunio rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru er mwyn gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant?**

- **Cytuno**

- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

**C4A** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen i awdurdodau lleol lunio rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru er mwyn gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

**C5** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau llwyfan effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

**C6** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau bod mwy o hyder mewn darparwyr llety ymwelwyr a llety yng Nghymru?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

### **Gweithredu/Gweinyddu cenedlaethol neu leol**

Gallai cynllun statudol naill ai gael ei sefydlu i'w weithredu/i'w weinyddu'n genedlaethol gan un awdurdod trwyddedu, neu yn lleol gan bob un o'r 22 o brif awdurdodau yng Nghymru, neu drwy fodel gweithredu hybrid sy'n cynnwys elfennau cenedlaethol a lleol. Un fantais bosibl o weinyddu a gweithredu cynllun yn genedlaethol fyddai effeithlonrwydd a chysondeb o ran dull gweithredu, tra gallai cynllun sy'n cael ei weithredu gan 22 o awdurdodau gwahanol fod yn ddryslyd ac yn anos ei reoli.

Rydym yn ystyried a allai dull gweithredu Rhentu Doeth Cymru fod yn briodol i'w fabwysiadu ar gyfer y cynllun statudol hwn ac a fyddai model gweithredu cenedlaethol/lleol hybrid ar gyfer y cynllun statudol hwn yn fuddiol. Gallai model hybrid gynnwys penodi un awdurdod trwyddedu i gofrestru darparwyr llety a chael a phrosesu ceisiadau am drwydded, gyda'r awdurdod lleol cymwys yn cymryd camau gorfodi yn ôl y gofyn.

**C7 Rydym o'r farn y dylai cynllun statudol gael ei weithredu ar sail hybrid, gan ymdrin ag elfennau craidd megis cofrestru darparwyr a phrosesu ceisiadau ar sail genedlaethol, gyda chmau gorfodi yn cael eu cymryd gan awdurdodau lleol yn ôl y gofyn. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, beth yw'r ffordd orau o weinyddu a gorfodi'r cynllun yn eich barn chi?**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?**

### **Mathau o lety sydd o fewn y cwmpas**

Y consensws o'r ymarfer cwmpasu cychwynol a gynhaliwyd oedd y dylai unrhyw gynllun a gyflwynir fod yn gymwys i bob weithredwr llety ymwelwyr, ni waeth pa fath o weithredwr ydyw, ei faint a pha mor aml y defnyddir ei lety, a hynny ar y sail bod rhanddeiliaid o'r farn y dylai fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig llety yn gyfnewid am arian, boed hynny'n broffesiynol neu ar sail achlysurol neu anaml, gyrraedd yr un safonau diogelwch er mwyn sicrhau tegwch i bawb a chadw ymwelwyr yn ddiogel.

Rydym yn cynnig y dylid cynnwys pob math o lety ymwelwyr o dan y cynllun hwn, a ddiffinnir gennym fel a ganlyn:

*“Ystafell, grŵp o ystafelloedd, strwythur neu adeilad, llain o dir i osod llety dros dro, llety dros dro (carafán, cartref modur, pabell, neu strwythur dros dro arall) neu gwch nad yw'n gyfeiriad parhaol person ac y telir amdano neu amdani neu y cyfnewidir unrhyw fudd arall amdano neu amdani”.*

Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys (nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr):

- Llety hunanddarpar/llety gosod tymor byr (tai, bythynnod, cabanau gwyliau a fflatiau)
- Llety Gwely a Brecwast
- Safleoedd carafannau neu unrhyw safle sy'n derbyn cartrefi modur neu faniau gwersylla neu unrhyw gerbyd arall sy'n darparu llety
- Meysydd gwersylla
- Tai llety

- Hosteli a Thai Bynciau
- Gwestai
- Glampio a llety amgen
- Cychod culion, cychod preswyl, cychod camlas

Rydym yn cydnabod bod amrywiaeth eang o lety ymwelwyr ar gael i'w osod yng Nghymru ac mae cyfansoddiad llety ymwelwyr yn amrywio yn dibynnu ar yr ardal leol. O safbwynt tegwch ac er mwyn sicrhau diogelwch ymwelwyr, rydym o'r farn y dylai pob math o lety ymwelwyr sy'n cael ei osod yn fasnachol fod o fewn y cwmpas, gan gynnwys llety sy'n cael ei osod am arian neu unrhyw fudd arall.

Mae'r sector carafanau wedi tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â charafanau o dan berchnogaeth breifat ar safleoedd ac a fyddai safleoedd lle y darperir lleiniau (ond nid y llety) yn cael eu cynnwys ac mae cwestiwn ar wahân yn dilyn mewn perthynas â'r sector hwn.

Rydym hefyd am archwilio a ddylai fod unrhyw eithriadau ar gyfer mathau o lety ymwelwyr sydd o fewn y cwmpas, a'r rhesymau dros hyn. Fel yr amlinellwyd, yr hyn a ffeifrir gennym yw y dylai pob darparwr llety ymwelwyr fod o fewn y cwmpas. Fodd bynnag, rydym am ystyried safbwyntiau ynghylch a ddylai fod unrhyw eithriadau ac os felly, pam.

**C8 Cynigir bod yr holl lety ymwelwyr yn cael ei ystyried o fewn cwmpas cynllun statudol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

**C9 A allwch chi nodi unrhyw fath o lety ymwelwyr y dylid ei eithrio rhag bod yn rhan o gynllun statudol a beth yw'r rhesymau dros eich ateb (e.e. llety a ddefnyddir at ddibenion addysg neu grwpiau agored i niwed yn unig)?**

### **Safleoedd carafanau a/neu feysydd gwersylla**

Mae'n ofynnol eisoes i safleoedd carafanau a/neu feysydd gwersylla ddal trwydded a roddir gan eu hawdurdod lleol (yn amodol ar rai eithriadau).

Nododd y gwaith a wnaed yn ystod yr ymarfer cwmpasu cychwynnol mai un o'r meysydd anoddaf i'w ystyried yw carafanau o dan berchnogaeth breifat sy'n cael eu his-osod ar barciau trwyddedig. Y parc carafanau sy'n gyfrifol am ddiogelwch y gwestai tra bydd ar y safle y tu allan i'r garafán, a hefyd y tu mewn iddi, os yw'r parc wedi gosod y garafán. Fodd bynnag, os mai'r perchennog sydd wedi gosod y garafán, yna y perchennog sy'n gyfrifol o hyd.

Ceir enghreifftiau o safleoedd carafanau a/neu feysydd gwersylla lle mae perchennog y safle yn berchen ar y llety ac yn ei osod; llety sydd o dan

berchnogaeth breifat (ond sy'n cael ei is-osod yn breifat at ddibenion gwyliau) a llety o dan berchnogaeth breifat at ddiben personol yn unig.

**C10 Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety at ddibenion gwyliau mewn safleoedd carafanau a/neu feysydd gwersylla (h.y. perchennog y parc neu'r perchennog unigol) gael trwydded. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

**C10a Oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynglŷn â chynllun statudol a'r sector carafanau a gwersylla?**

### **Cyfnod gweithredu**

Daeth y gwaith a wnaed yn ystod yr ymarfer cwmpasu cychwynnol i'r casgliad y dylai cynllun trwyddedu statudol fod yn gymwys i bob gweithredwr hyd yn oed os mai dim ond am un noson y flwyddyn y maent yn gweithredu, gan fod risgiau i ddiogelwch o hyd. Ni ddylai defnydd anaml olygu bod gweithredwyr yn cael eu heithrio rhag cyrraedd safonau diogelwch penodol, am fod y gofyniad i ddiogelu defnyddwyr llety yr un mor bwysig o hyd.

**C11 Rydym yn cynnig y dylai trwydded fod yn ofynnol hyd yn oed os mai'n anaml y mae'r llety ymwelwyr yn gweithredu (gan gynnwys am un noson y flwyddyn). Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

### **Trwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol**

Mae [Ynys Manaw](#) yn gweithredu system dwy haen o fathau o lety:

- Llety Ymwelwyr Parhaol – dyma'r prif gategori o lety sy'n gymwys i unrhyw un sy'n gweithredu llety ymwelwyr dros 12 mis o'r flwyddyn.
- Llety Ymwelwyr Aros mewn Cartref – dyma opsiwn i bobl sydd am weithredu llety ymwelwyr yn ystod y tri phrif ddigwyddiad a gynhelir bob blwyddyn ar yr ynys yn unig.



Rydym yn cynnig, pe bai digwyddiad untro yn cael ei gynnal o fewn ardal benodol yng Nghymru lle mae prinder llety, y gallai darparwyr wneud cais am drwydded gyfyngedig am gost ostyngol. Byddai'n rhaid i'r darparwr fodloni pob un o'r gofynion trwyddedu o hyd er mwyn sicrhau diogelwch ymwelwyr a thegwch, byddai'n gallu gweithredu am gyfnod penodol o amser yn unig, i'w bennu, a dim ond unwaith o fewn cyfnod o 12 mis y byddai'n gallu gwneud cais.

### **C12 Ydych chi'n cytuno â'r angen am drwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai darparwyr llety sy'n gweithredu ar sail dros dro ar gyfer digwyddiadau untro gael eu rheoleiddio er mwyn sicrhau diogelwch ymwelwyr a thegwch?**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

### **Gofynion y cynllun**

Y farn gychwynnol ymhlith rhanddeiliaid oedd y dylai unrhyw broses gwneud cais am drwydded fod ar-lein lle mae darparwr llety ymwelwyr yn lanlwytho dogfennau penodol yn ogystal â gwybodaeth gyswllt/eiddo sylfaenol . Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylai hyn, o leiaf, gynnwys cadarnhad o yswiriant, asesiad risg tân a thystysgrif diogelwch nwy.

Gallai tystiolaeth bellach gynnwys cadarnhad bod caniatâd cynllunio perthnasol ar waith, prawf o ddiogelwch trydanol, prawf o ddiogelwch dŵr (os mai cyflenwad preifat sydd dan sylw) a/neu radd Hylendid Bwyd (os gweinir bwyd)). Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau diogelwch ac osgoi proses a oedd yn anghymesur o feichus.

Cynigir y bydd y cynllun trwyddedu yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr ddarparu manylion penodol a lanlwytho tystiolaeth i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion a bennwyd. Cynigir y bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys:

- enw a chyfeiriad cyswllt y perchennog
- rhif ffôn, e-bost a dewis iaith
- enw'r sefydliad
- cyfeiriad a chod post y llety ymwelwyr
- ardal awdurdod lleol
- math o lety ymwelwyr (gwesty, gwely a brecwast, hunanddarpar ac ati)
- maint yr eiddo/unedau llety
- nifer mwyaf y gwesteion a ganiateir
- achrediadau ansawdd e.e., graddau Croeso Cymru/AA (os yw'r darparwr wedi ymuno â'r cynllun)

- cadarnhad o statws cynllunio (caniatadau gan gynnwys rhyngweithio â'r dosbarthiadau defnydd cynllunio newydd – prif gartref, ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ac unrhyw reolaethau lleol a gyflwynir drwy ddiwygiadau i'r system gynllunio)
- prawf o yswiriant ar gyfer llety ymwelwyr
- tystiolaeth o asesiad risg tân
- prawf o dystysgrif diogelwch nwy
- prawf i ddiogelwch trydanol (profion PAT)
- prawf o ddiogelwch dŵr (os mai cyflenwad preifat sydd dan sylw)
- Gradd Hylendid Bwyd (os gweinir bwyd)

**C13 Rydym yn cynnig y dylai darparwyr llety ymwelwyr ddarparu'r wybodaeth / y ddogfennaeth uchod ac y dylai fod yn ofynnol iddynt roi tystiolaeth/cadarnhad eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion fel y nodir uchod**

- **Cytuno**
- **Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, pa wybodaeth / dogfennaeth / tystiolaeth y dylid bod yn rhaid i ddarparwyr ei chyflwyno er mwyn gwneud cais am drwydded?**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

**Cydymffurfio a gorfodi**

Cynigir y bydd camau gorfodi yn cynnwys arolygiadau, yn bennaf archwilio'r ddogfennaeth a'r dystiolaeth wreiddiol er mwyn sicrhau eu bod yn ddilys ac yn gywir, ond o bosibl, archwiliad o eiddo, yn dibynnu ar natur unrhyw gŵyn a ddaw i law.

Mae angen taro cydbwysedd rhwng peidio â chynnal arolygiadau (sy'n gwanhau gwerth unrhyw gynllun) a chynnal canran uchel o arolygiadau (sy'n gofyn am gryn dipyn o adnoddau ac sy'n gostus i'w gweinyddu). Y consensws o'r ymarfer cwmpasu cychwynnol oedd anelu at rywbeth yn y canol. Mae angen hefyd osgoi dyblygu ag unrhyw fath arall o arolygiad statudol a all gael ei gynnal a sicrhau bod 'arolygwyr' unrhyw gynllun statudol arall wedi cael eu hyfforddi'n addas, yn gymwysedig ac yn meddu ar yr awdurdod i orfodi cydymffurfiaeth os bydd angen. Ni chynigir y caiff nifer sylweddol o arolygiadau rhagweithiol eu cynnal.

Yn hytrach na hynny, cynigir y caiff darparwyr eu dewis i'w harolygu gan yr awdurdod trwyddedu ar sail ganrannol, dyweder, o gymhareb o 1 ym mhob 50, yn seiliedig ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ac a arweinir gan ddata, e.e., eiddo sydd wedi bod yn destun cwyn neu lle mae pryderon ynglŷn â'r darparwr eiddo wedi cael eu codi. Mae'r pŵer i gynnal arolygiadau yn rhan bwysig o'r broses er mwyn sicrhau diogelwch a chod safonau. Byddai pwerau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr llety ddarparu gwybodaeth yn ychwanegol at yr wybodaeth sydd ei hangen mewn cais am drwydded hefyd yn helpu wrth ymchwilio i gwynion.

Deallwn y byddai'r rhan fwyaf o bobl am weithredu'n unol â'r gyfraith ac yn cael trwydded ar yr adeg gywir. Un o'n prif nodau fydd sicrhau lefel uchel o gydymffurfiaeth wirfoddol. Bwriadwn hefyd weithredu mewn ffordd addysgol sy'n codi ymwybyddiaeth er mwyn helpu darparwyr i ddeall y gofynion.

Fodd bynnag, byddai angen gallu troi at fesurau cydymffurfio a gorfodi, gan gynnwys cosbau, er mwyn sicrhau tegwch. Mae enghreifftiau/arferion gorau mewn gwledydd eraill yn amrywio, mae'r cosbau am beidio â chydymffurfio'n amrywio o gosbau sifil i gosbau troseddol neu gyfuniad o'r ddau, gyda rhai gwledydd yn rhoi dirwyon, ac eraill yn rhoi dedfryd o garchar am rai troseddau.

Credwn y dylai fod rhyw lefel o gosb os na fydd darparwr yn cydymffurfio ac y dylai'r rhain fod yn ddigon i atal darparwyr rhag osgoi gwneud cais am drwydded a/neu beidio â chydymffurfio â gofynion unrhyw gynllun.

Cynigir y byddai'r cynllun trwyddedu yn cynnwys cosbau am faterion fel:

- Darparwyr llety ymwelwyr sy'n gweithredu heb drwydded;
- Methiant i roi dogfennaeth neu wybodaeth berthnasol i'r awdurdod trwyddedu.
- Methiant i gydymffurfio ag amodau trwydded (er enghraifft, methiant i dalu'r ffi neu'r tâl perthnasol o fewn y cyfnod penodedig)
- Ffugio dogfennaeth y drwydded
- Methiant i roi mynediad i'r awdurdod trwyddedu at y llety
- Trefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill, llwyfannau marchnata, asiantaethau hunanddarpar yn hysbysebu llety ymwelwyr heb drwydded yn fwriadol neu'n esgeulus (Gweler y cwestiwn ynglŷn ag arddangos rhif trwydded am eglurhad)

Gallai cosbau gynnwys:

- Dirwyon, a allai amrywio yn ôl difrifoldeb a hyd yr achos o beidio â chydymffurfio.
- Dirymu trwydded, am gyfnod neu'n barhaol.
- Gellid rhoi hysbysiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr unioni achos o beidio â chydymffurfio o dan rai amgylchiadau cyn i drwydded gael ei dirymu. Os bydd y darparwr yn methu â chymryd y camau angenrheidiol o fewn terfyn amser penodol, yna byddai'r drwydded yn cael ei dirymu.
- Newid amodau trwydded (er enghraifft i gyfyngu ar drwydded darparwr nad yw'n cydymffurfio)
- Erlyn mewn achosion o beidio â chydymffurfio a allai beri i lys roi dirwy neu ddedfryd o garchar am rai achosion o beidio â chydymffurfio (pan fyddant yn ddifrifol ac yn cael eu hailadrodd )

**C14 Rydym yn cynnig y dylid cynnal arolygiadau ar gymhareb o 1:50 drwy ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ac arolygiadau ychwanegol mewn ymateb i gwynion cwsmeriaid neu bryderon eraill**

sy'n cael eu dwyn i sylw'r awdurdod trwyddedu. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno
- Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, beth y dylid ei wneud yn lle hynny yn eich barn chi er mwyn sicrhau bod deiliaid trwyddedau yn bodloni'r meini prawf perthnasol?
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C15** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai ddarparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio wynebu mesurau gorfodi?

- Cytuno. Os ydych chi'n cytuno, pa fesurau gorfodi y dylid / na ddylid eu defnyddio, yn eich barn chi?
- Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, pa fesurau amgen y byddech yn eu hawgrymu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth?
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

## **Prawf Person Cymwys a Phriodol**

Mae cynlluniau megis [Rhentu Doeth Cymru](#), y cynllun trwyddedu a weithredir o dan [Ddeddf Cartrefi Symudol \(Cymru\) 2013](#) a [chynllun trwyddedu llety gosod tymor byr Llywodraeth yr Alban](#) oll yn cynnwys gofyniad am brawf Person Cymwys a Phriodol.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn disgrifio hyn fel:

- Diben y gofyniad hwn yw sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am osod a rheoli eiddo yn y sector rhentu preifat yn meddu ar uniondeb digonol a chymeriad da i ymwneud â rheoli'r eiddo y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef. Hefyd, nid ydynt yn achosi risg i les na diogelwch personau sy'n meddiannu'r eiddo.

Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn disgrifio hyn fel:

- Wrth benderfynu rhoi trwydded safle ar gyfer safle cartrefi symudol a reoleiddir o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, mae'n rhaid i awdurdod lleol fod wedi'i fodloni bod y perchennog yn "berson addas a phriodol i reoli'r safle neu (os nad y perchennog sy'n rheoli'r safle) fod person a benodwyd i wneud hynny gan y perchennog yn berson addas a phriodol i wneud hynny....." neu "gyda chydsyniad y perchennog, wedi penodi person ei hun i reoli'r safle."

O ystyried yr enghreifftiau a nodir uchod, felly gellid ei ystyried yn rhesymol cynnwys prawf person cymwys a phriodol neu ofyniad tebyg fel rhan o ofynion y cynllun ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr.

Wrth ystyried a yw person “yn berson cymwys a phriodol” cynigir bod yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi sylw i unrhyw dystiolaeth bod y person dan sylw wedi cyflawni unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd, trais, arfau tanio neu gyffuriau neu unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau lle y ceir gofynion hysbysu), wedi gwahaniaethu yn erbyn person arall neu wedi aflonyddu ar berson arall yn anghyfreithlon ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchoddedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu wedi erlid person arall yn groes i'r Ddeddf honno, wrth ddarparu llety ymwelwyr neu mewn cysylltiad â hynny, ac unrhyw faterion sy'n briodol ym marn yr awdurdod.

**C16 Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys prawf person cymwys a phriodol neu brawf tebyg fel rhan o ofynion y cynllun ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, pa ffyrdd eraill, yn eich barn chi, y gellid eu defnyddio i gadarnhau bod darparwyr yn bobl addas i osod llety i ymwelwyr?**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb? Pa faterion y dylai neu na ddylai'r awdurdod trwyddedu eu hystyried, yn eich barn chi, wrth iddynt benderfynu a yw person yn berson cymwys a phriodol i roi trwydded iddo?**

**Ffioedd trwydded**

Cynigir y bydd y cynllun trwyddedu yn ariannu ei hun ac y bydd y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu a chynnal y cynllun yn cael eu hadennill drwy ffioedd.

Rydym yn sylweddoli bod hon yn elfen bwysig i'w chael yn gywir. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau y bydd angen eu hystyried cyn y gellir gosod ffioedd ac mae'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn e.e.

- Nodi nifer y darparwr llety ymwelwyr a'r math o ddarparwyr llety ymwelwyr sydd o fewn y cwmpas;
- Amllder ceisiadau; ac
- Cyfundrefn Arolygu a Gorfodi.

Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r cwestiynau hyn, bydd angen gwneud rhagor o waith ar ffioedd trwydded fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol llawnach ond awgrymodd adborth o'r ymarfer cwmpasu cychwynnol bod angen i'r ffioedd fod yn gymesur.

*'Ni ddylai fod yn ofynnol i weithredwr bach iawn dalu'r un swm â gwesty mawr. Fodd bynnag, mae busnesau mawr yn cadw at yr un safonau ac felly mae rhai yn teimlo y dylai ffioedd ar raddfa gynyddu o ychydig, ond nid yn ormodol.'*

Felly, rydym am ystyried a ddylai'r ffi fod ar raddfa (h.y. yn seiliedig ar y math o lety ymwelwyr a maint y llety ymwelwyr (e.e. nifer yr ystafelloedd gwely/unedau/lleiniau) neu a ddylai pob darparwr llety ymwelwyr dalu'r un ffi safonol.

**C17 Hoffem gael eich barn ynghylch a ddylai pob darparwr llety ymwelwyr dalu'r un ffi safonol neu a ddylai'r ffioedd fod ar raddfa (h.y. yn seiliedig ar y math o lety ymwelwyr a maint y llety ymwelwyr)?**

**17a Ydych chi'n cytuno y dylai pob darparwr llety ymwelwyr dalu'r un ffi?**

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**17b Ydych chi'n cytuno y dylai ffioedd fod ar raddfa yn seiliedig ar faint y llety ymwelwyr?**

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C18 Yng Nghwestiwn 12, gofynnwyd am drwyddedau cyfyngedig am ddigwyddiadau untro neu flynyddol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai darparwyr wneud cais am drwydded untro am gost ostyngol?**

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

### **Amllder ceisiadau**

Un o'r cwestiynau allweddol i'w ystyried yw pa mor aml y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr adnewyddu eu trwyddedau.

Rydym yn sylweddoli bod angen taro cydbwysedd rhwng gwneud y gofynion adnewyddu ar ddarparwyr yn rhy feichus a sicrhau eu bod yn dangos tystiolaeth o ofynion y cynllun ac yn adnewyddu eu trwyddedau'n rheolaidd. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd amllder adnewyddu yn effeithio ar gostau gweinyddol rhedeg cynllun.

Mae trwyddedau a roddir o dan gynllun Rhentu Doeth Cymru yn para am 5 mlynedd cyn bod yn rhaid eu hadnewyddu. Fodd bynnag, o dan gynlluniau llety eraill, mae'n

ofynnol i ddarparwyr adnewyddu eu cofrestriad/trwydded yn amlach e.e. bob blwyddyn neu bob 3 blynedd.

**C19 Pa mor aml y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr adnewyddu eu trwydded?**

- **Bob blwyddyn**
- **Bob 2 flynedd**
- **Bob 3 blynedd**
- **Bob 4 blynedd**
- **Bob 5 mlynedd**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

**C20 Os bydd yn ofynnol adnewyddu trwyddedau'n llai aml na phob blwyddyn, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gymryd rhan mewn adolygiad blynyddol h.y. lanlwytho tystiolaeth gyfredol/cadarnhad eu bod yn cydymffurfio â gofynion eu trwydded?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

**Tryloywder a mynediad at wybodaeth**

Efallai y bydd yn angenrheidiol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol rannu gwybodaeth a data personol a ddarperir gan ddarparwyr llety i'r awdurdod trwyddedu fel rhan o'u ceisiadau (os yw'n briodol) ag awdurdodau a phartneriaid allweddol eraill (enghreifftiau isod) at ddibenion cyfathrebu, diogelwch, cydymffurfiaeth a gorfodi.

Cynigir hefyd y dylai cofrestr gyhoeddus o ddarparwyr trwyddedig fod ar gael i ddarpar ymwelwyr er mwyn cadarnhau cydymffurfiaeth eiddo y maent yn dymuno aros ynddo ac i gymunedau lleol lle mae'r darparwyr hyn yn gweithredu.

Gallai'r rhestr o awdurdodau a phartneriaid allweddol gynnwys (nid yw'n gynhwysfawr):

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru/CThEF
- Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Eraill (Gwasanaeth Tân)
- Cyrff Aelodaeth/Cynrychioliadol/Marchnata
- Trefnwyr Gwyliau Ar-lein / Llwyfannau Archebu
- Grwpiau a sefydliadau cyhoeddus a chymunedol (h.y. cynghorau cymuned)

**C21 Rydym yn cynnig, fel rhan o'r broses gwneud cais am drwydded, y gofynnir i ddarparwyr llety gydsynio i'r wybodaeth a ddarperir ganddynt**

**gael ei rhannu rhwng awdurdodau a phartneriaid allweddol at ddibenion cyfathrebu, diogelwch, cydymffurfiaeth, gorfodi a rhoi ardoll ymwelwyr ar waith. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, a wnewch chi ddweud pa wybodaeth (os o gwbl) a ddylai gael ei rhannu rhwng awdurdodau a phartneriaid allweddol yn eich barn chi?**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

### **Arddangos rhifau trwyddedau**

Fel rhan o gael trwydded neu awdurdod i weithredu, mae nifer o gynlluniau sy'n gweithredu mewn mannau eraill yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr llety arddangos rhif trwydded/rhif cofrestru ar bob llwyfan hysbysebu er mwyn sicrhau bod darpar ymwelwyr yn ymwybodol o safonau ac atal eiddo heb drwydded rhag cael ei hysbysebu i'w archebu.

Fel rhan o gael trwydded, rydym yn cynnig y dylai darparwr llety ymwelwyr gael rhif trwydded unigryw. Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr llety ymwelwyr arddangos ei rif trwydded ar bob deunydd hysbysu/marchnata ac arddangos cadarnhad o'i rif trwydded ar ei llety i ymwelwyr.

Rydym hefyd yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i drefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu eraill, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar arddangos rhif trwydded y llety ymwelwyr y maent yn ei hyrwyddo ar eu rhestrau a/neu hysbysebion.

Ceir nifer o enghreifftiau lle mae darparwyr llety ymwelwyr yn cael rhif cofrestru/rhif trwydded fel tystiolaeth eu bod yn rhan o gynllun statudol, ac mae angen iddynt hwy yn eu tro arddangos y rhif cofrestru/rhif trwydded hwnnw ar bob deunydd hysbysebu, yn enwedig llwyfannau ar-lein. Rydym yn ymwybodol bod rhai cyrchfannau wedi dirwyo llwyfannau ar-lein lle maent wedi methu â chydymffurfio â rheoliadau lleol ynglŷn ag arddangos rhifau eiddo cofrestredig/trwyddedig.

Felly, rydym am ystyried a ddylai fod yn ofynnol i drefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar arddangos rhif trwydded y llety ymwelwyr y maent yn ei hyrwyddo ar eu rhestrau a/neu hysbysebion ac a ddylai fod cosbau i'r rhai sy'n hysbysebu llety ymwelwyr heb drwydded yn fwriadol neu'n esgeulus.

**C22 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr llety arddangos ei rif trwydded ar bob deunydd hysbysebu/marchnata ac yn ei llety i ymwelwyr ac y dylai fod yn agored i gosbau os nad yw'n cydymffurfio?**



- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C23** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig Y DYLAI FOD YN OFYNNOL i drefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar arddangos rhif trwydded y llety ymwelwyr y maent yn ei hyrwyddo ar eu rhestrau a/neu hysbysebion ac y dylent fod yn agored i gosbau os ydynt yn hysbysebu llety ymwelwyr heb drwydded yn fwriadol neu'n esgeulus?

- Cytuno – Pa gosbau y dylid eu rhoi o dan yr amgylchiadau hyn yn eich barn chi?
- Anghytuno – Oes unrhyw gosbau na ddylid eu rhoi o dan yr amgylchiadau hyn yn eich barn chi?
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

#### Sylwadau terfynol

**C24** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai cynllun trwyddedu statudol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

**C25** Oes gennych unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth o effaith unrhyw fathau gwahanol o gynlluniau sydd eisoes yn rhedeg, neu ddulliau gweithredu a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r byd, y gallai Llywodraeth Cymru ddysgu ganddynt neu eu rhoi ar waith?

**C26** Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynllun trwyddedu statudol arfaethedig nas cwmpaswyd yn eich atebion i unrhyw un o'r cwestiynau uchod?

**C27** Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i chynigion yn eich barn chi?

## Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

### Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

- C1** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i sefydlu cynllun trwyddedu fel y disgrifir ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru?
- Cytuno
  - Anghytuno
  - Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
  - Beth yw'r rhesymau dros eich atebion? Pa effaith, yn gadarnhaol neu'n negyddol, y bydd y cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yn ei chael, yn eich barn chi?
- C2** Os ydych chi'n anghytuno â'r cynnig i sefydlu cynllun trwyddedu, a ydych chi'n cytuno â chreu cynllun cofrestru ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru?
- Cytuno – os ydych chi'n cytuno â chreu cynllun cofrestru, sut y dylai'r cynllun weithredu yn eich barn chi?
  - Anghytuno – nid wyf am weld cynllun trwyddedu na chynllun cofrestru
  - Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
  - Beth yw'r rhesymau dros eich atebion? Pa effaith, yn gadarnhaol neu'n negyddol, y bydd y cynllun cofrestru ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yn ei chael yn eich barn chi?
- C3** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol fel y disgrifir yn sicrhau tegwch i bob darparwr llety sy'n gweithredu yng Nghymru?
- Cytuno
  - Anghytuno
  - Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
  - Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?
- C4** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen i Lywodraeth Cymru lunio rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru er mwyn gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant?
- Cytuno
  - Anghytuno
  - Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
  - Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

**C4A** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen i awdurdodau lleol lunio rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru er mwyn gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

**C5** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau llwyfan effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

**C6** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau bod mwy o hyder mewn darparwyr llety ymwelwyr a llety yng Nghymru?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

**C7** Rydym o'r farn y dylai cynllun statudol gael ei weithredu ar sail hybrid, gan ymdrin ag elfennau craidd megis cofrestru darparwyr a phrosesu ceisiadau ar sail genedlaethol, gyda chamau gorfodi yn cael eu cymryd gan awdurdodau lleol yn ôl y gofyn. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

- Cytuno
- Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, beth yw'r ffordd orau o weinyddu a gorfodi'r cynllun yn eich barn chi?
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich atebion?

**C8** Cynigir bod yr holl lety ymwelwyr yn cael ei ystyried o fewn cwmpas cynllun statudol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C9** A allwch chi nodi unrhyw fath o lety ymwelwyr y dylid ei eithrio rhag bod yn rhan o gynllun statudol a beth yw'r rhesymau dros eich ateb (e.e. llety a ddefnyddir at ddibenion addysg neu grwpiau agored i niwed yn unig)?

**C10** Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety at ddibenion gwyliau mewn safleoedd carafanau a/neu feysydd gwersylla (h.y. perchennog y parc neu'r perchennog unigol) gael trwydded. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C10A** Oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynglŷn â chynllun statudol a'r sector carafanau a gwersylla?

**C11** Rydym yn cynnig y dylai trwydded fod yn ofynnol hyd yn oed os mai'n anaml y mae'r llety ymwelwyr yn gweithredu (gan gynnwys am un noson y flwyddyn). Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C12** Ydych chi'n cytuno â'r angen am drwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol?

- Cytuno
- Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai darparwyr llety sy'n gweithredu ar sail dros dro ar gyfer digwyddiadau untro gael eu rheoleiddio er mwyn sicrhau diogelwch ymwelwyr a thegwch?
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C13** Rydym yn cynnig y dylai darparwyr llety ymwelwyr ddarparu'r wybodaeth / y ddogfennaeth uchod ac y dylai fod yn ofynnol iddynt roi tystiolaeth/cadarnhad eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion fel y nodir uchod

- Cytuno
- Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, pa wybodaeth / dogfennaeth / tystiolaeth y dylid bod yn rhaid i ddarparwyr ei chyflwyno er mwyn gwneud cais am drwydded?
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C14** Rydym yn cynnig y dylid cynnal arolygiadau ar gymhareb o 1:50 drwy ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ac arolygiadau ychwanegol mewn ymateb i gwynion cwsmeriaid neu bryderon eraill sy'n cael eu dwyn i sylw'r awdurdod trwyddedu. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno
- Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, beth y dylid ei wneud yn lle hynny yn eich barn chi er mwyn sicrhau bod deiliaid trwyddedau yn bodloni'r meini prawf perthnasol?
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C15** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai ddarparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio wynebu mesurau gorfodi?

- Cytuno. Os ydych chi'n cytuno, pa fesurau gorfodi y dylid / na ddylid eu defnyddio, yn eich barn chi?
- Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, pa fesurau amgen y byddech yn eu hawgrymu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth?
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C16** Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys prawf person cymwys a phriodol neu brawf tebyg fel rhan o ofynion y cynllun ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr?

- Cytuno
- Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, pa ffyrdd eraill, yn eich barn chi, y gellid eu defnyddio i gadarnhau bod darparwyr yn bobl addas i osod llety i ymwelwyr?
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb? Pa faterion y dylai neu na ddylai'r awdurdod trwyddedu eu hystyried, yn eich barn chi, wrth iddynt benderfynu a yw person yn berson cymwys a phriodol i roi trwydded iddo?

**C17 Hoffem gael eich barn ynghylch a ddylai pob darparwr llety ymwelwyr dalu'r un ffi safonol neu a ddylai'r ffioedd fod ar raddfa (h.y. yn seiliedig ar y math o lety ymwelwyr a maint y llety ymwelwyr)?**

**17a Ydych chi'n cytuno y dylai pob darparwr llety ymwelwyr dalu'r un ffi?**

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**17b Ydych chi'n cytuno y dylai ffioedd fod ar raddfa yn seiliedig ar faint y llety ymwelwyr?**

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C18 Yng Nghwestiwn 12, gofynnwyd am drwyddedau cyfyngedig am ddigwyddiadau untro neu flynyddol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai darparwyr wneud cais am drwydded untro am gost ostyngol?**

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C19 Pa mor aml y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr adnewyddu eu trwydded?**

- Bob blwyddyn
- Bob 2 flynedd
- Bob 3 blynedd
- Bob 4 blynedd
- Bob 5 mlynedd
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C20 Os bydd yn ofynnol adnewyddu trwyddedau'n llai aml na phob blwyddyn, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gymryd rhan mewn adolygiad blynyddol h.y. lanlwytho tystiolaeth gyfredol/cadarnhad eu bod yn cydymffurfio â gofynion eu trwydded?**

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**C21 Rydym yn cynnig, fel rhan o'r broses gwneud cais am drwydded, y gofynnir i ddarparwyr llety gydsynio i'r wybodaeth a ddarperir ganddynt gael ei rhannu rhwng awdurdodau a phartneriaid allweddol at ddibenion cyfathrebu, diogelwch, cydymffurfiaeth, gorfodi a rhoi ardoll ymwelwyr ar waith. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno. Os ydych chi'n anghytuno, a wnewch chi ddweud pa wybodaeth (os o gwbl) a ddylai gael ei rhannu rhwng awdurdodau a phartneriaid allweddol yn eich barn chi?**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

**C22 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr llety arddangos ei rif trwydded ar bob deunydd hysbysebu/marchnata ac yn ei lety i ymwelwyr ac y dylai fod yn agored i gosbau os nad yw'n cydymffurfio?**

- **Cytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

**C23 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig Y DYLAID FOD YN OFYNNOL i drefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar arddangos rhif trwydded y llety ymwelwyr y maent yn ei hyrwyddo ar eu rhestrau a/neu hysbysebion ac y dylent fod yn agored i gosbau os ydynt yn hysbysebu llety ymwelwyr heb drwydded yn fwriadol neu'n esgeulus?**

- **Cytuno – Pa gosbau y dylid eu rhoi o dan yr amgylchiadau hyn yn eich barn chi?**
- **Anghytuno – Oes unrhyw gosbau na ddylid eu rhoi o dan yr amgylchiadau hyn yn eich barn chi?**
- **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**
- **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

### **Sylwadau terfynol**

**C24 Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai cynllun trwyddedu statudol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl**

**ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

**C25 Oes gennych unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth o effaith unrhyw fathau gwahanol o gynlluniau sydd eisoes yn rhedeg, neu ddulliau gweithredu a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r byd, y gallai Llywodraeth Cymru ddysgu ganddynt neu eu rhoi ar waith?**

**C26 Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynllun trwyddedu statudol arfaethedig nas cwmpaswyd yn eich atebion i unrhyw un o'r cwestiynau uchod?**

**C27 Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i chynigion yn eich barn chi?**

### **Y Camau Nesaf**

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd y gwaith datblygu polisi yn parhau yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd. Byddai'r broses ofalus o ddatblygu unrhyw gynigion ar gyfer trwydded statudol a'u rhoi ar waith yn cymryd sawl blwyddyn. Caiff y camau nesaf eu cyhoeddi ar ôl i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hystyried yn llawn.

### **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

#### **Amdanoch chi (dewisol)**

#### **Eich enw**

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau? Ticiwch bob un sy'n berthnasol:

- Preswlydd (yng Nghymru)
- Llwyfan Archebu/Trefnydd Gwyliau Ar-lein/Sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill, llwyfannau marchnata
- Asiantaethau hunanddarpar
- Corff Cynrychioliadol Twristiaeth



- Awdurdod Lleol
- Awdurdod Parc Cenedlaethol
- Cymdeithas Twristiaeth
- Darparwr Llety Ymwelwyr - nodwch isod
  - Gwely a Brecwast
  - Maes neu barc gwerysyla
  - Cychod camlas, cychod culion, cychod preswyl
  - Llety ar gampws
  - Llong fordeithio
  - Gwesty
  - Ffermdy
  - Llety glampio
  - Tŷ Llety
  - Parc Gwyliau
  - Pentref Gwyliau
  - Hostel neu lety tebyg
  - Carafán unigol (gan gynnwys y rhai sy'n cael eu his-osod mewn parc gwyliau)
  - Bwyty ag ystafelloedd
  - Llety hunanddarpar/llety gosod tymor byr (tai, bythynnod, cabanau gwyliau a fflatiau)
  - Parc Teithio

Arall – nodwch. ☒

**Sefydliad (Ile bo'n berthnasol)**

**Maint y busnes (yn seiliedig ar nifer y cyflogeion)**

- Micro (0-9)**
- Bach (10-49)**
- Canolig (50-249)**
- Mawr (250+)**

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

## Atodiad A – Engbreiffiau o gynlluniau trwyddedu, cofrestru ac ardystio

### Gogledd Iwerddon

O dan [Orchymyn Twristiaeth \(Gogledd Iwerddon\) 1992](#), mae'n rhaid i bob darparwr llety i dwristiaid yng [Ngogledd Iwerddon](#) gael ei ardystio gan Tourism Northern Ireland er mwyn gweithredu. Mae'n ofyniad cyfreithiol ar bob llety i dwristiaid yng Ngogledd Iwerddon i gael ei ardystio gan Tourism Northern Ireland cyn y gall weithredu.

Codir ffi am y broses ardystio yn dibynnu ar y busnes llety a faint o ystafelloedd gwely neu leoedd gwely sydd gan y busnes. Cynhelir arolygiadau bob pedair blynedd.

Mae'n drosedd cynnig llety i dwristiaid heb dystysgrif, gyda dirwyon o hyd at £2,500 neu ddedfryd o garchar am hyd at chwe mis fel cosbau posibl.

### Yr Alban

Agorodd cynllun trwyddedu statudol ar gyfer gwsteiwyr llety gosod tymor byr ar 1 Hydref 2022 gyda'r nod o sicrhau safonau diogelwch cyson ac atgyfnerthu enw da twristiaeth a lletygarwch yn yr Alban.

Cafodd y cynllun trwyddedu ei ddatblygu mewn ymateb i bryderon a godwyd gan drigolion am effaith eiddo gosod tymor byr ar eu cymunedau lleol. Mae'n rhoi hyblygrwydd i gynghorau ddatblygu cynlluniau trwyddedu sy'n diwallu anghenion lleol ac mae'n cyd-fynd â phwerau cynghorau i sefydlu ardaloedd rheoli llety gosod tymor byr.

Er mwyn cydymffurfio â'r drwydded, bydd yn ofynnol i westeiwyr fodloni set o amodau gorfodol sy'n gymwys ledled yr Alban, ynghyd ag unrhyw amodau ychwanegol a osodir gan eu cyngor.

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd wedi gweithredu fel gwsteiwr cyn 1 Hydref wneud cais am drwydded erbyn 1 Hydref 2023 a gall weithredu nes bod penderfyniad ar ei gais. Mae'n rhaid i westeiwyr newydd gael trwydded cyn derbyn archebion.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan [Visit Scotland](#) a gwefan [Llywodraeth yr Alban](#)

### Lloegr

Nid oes unrhyw system ar hyn o bryd ar gyfer cofrestru neu drwyddedu llety gwsteion yn statudol yn Lloegr. Ymrwymwyd i ymgynghori ar gyflwyno system cofrestru llety i dwristiaid yn Lloegr yng Nghynllun Adfer Twristiaeth Llywodraeth y DU. Ar 29 Mehefin 2022, gwnaeth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gais am dystiolaeth ynglŷn â'r manteision a'r heriau sy'n codi yn sgil y cynnydd mewn llety gosod tymor byr a llety gwyliau yn Lloegr dros y

10-15 mlynedd diwethaf. Bydd hyn yn llywio'r broses o ddatblygu opsiynau polisi priodol, y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ymgynghori arnynt yn 2023. Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon](#).

## Ynys Manaw

Mae'n rhaid i bob math o lety ymwelwyr ar Ynys Manaw gofrestru â Visit Isle of Man. Mae hyn yn cynnwys pob darparwr llety, gan gynnwys:

*'gwestai, gwestai metro, eiddo hunanddarpar, llety gwesteion, tai llety, llety gwely a brecwast, llety ar fferm, tafarndai, bwytai ag ystafelloedd, fflatiau â gwasanaeth, meysydd gweryslla (gan gynnwys meysydd gweryslla dros dro), safleoedd glampio a hosteli'.*

Mae Ynys Manaw yn gweithredu system dwy haen o fathau o lety:

- Llety Ymwelwyr Parhaol – dyma'r prif gategori o lety sy'n gymwys i unrhyw un sy'n gweithredu llety ymwelwyr dros 12 mis o'r flwyddyn.
- Llety Ymwelwyr Aros mewn Cartref – dyma opsiwn i bobl sydd am weithredu llety ymwelwyr dim ond yn ystod y tri phrif ddigwyddiad a gynhelir ar yr ynys.

Mae gwahanol ofynion cofrestru ar gyfer y ddau fath o lety. Mae ffioedd cofrestru yn dechrau o £25 y flwyddyn.

Mae mwy o fanylion ar gael [yma](#)

## Guernsey

Mae'n rhaid i ddarparwyr llety gael trwydded flynyddol gan Bwyllgor yr Adran Datblygu Economaidd, cyn cynnig llety i westeion. Mae'n rhaid talu ffi gwneud cais.

Rhoddir trwyddedau sy'n ddilys am hyd at flwyddyn, rhwng 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn benodol a 31 Mawrth yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyddiad dyroddi:

Wrth wneud cais am drwydded, mae'r ymgeisydd yn ymrwmo i gydymffurfio â'r safonau ansawdd perthnasol a'r rhwymedigaethau statudol a osodir gan Gynulliad Guernsey. Pan roddir trwydded, mae deiliad y drwydded yn ymgymryd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y rhwymedigaethau hyn, ac yn ymgymryd â dyletswydd gofal i'r gwesteion yn eu gofal.

Mae dau gategori o drwydded flynyddol ar gael:

- Trwydded ar gyfer safleoedd llety ymwelwyr dynodedig sy'n gweithredu drwy gydol cyfnod dilys y drwydded (y tymor cyfredol).

- Trwydded tymor byr i ddarparu llety ymwelwyr dros dro mewn safleoedd eraill, gan gynnwys anheddau preifat, lle y cyfyngir ar y cyfnod defnydd hwyaf a ganiateir gan ddsbarthiad defnydd cynllunio'r safle.

Mae'n rhaid i drwyddedau gael eu harddangos yng ngolwg y cyhoedd mewn perthynas â'r safle y'i rhoddwyd ar ei gyfer.

Mae mwy o fanylion ar gael [yma](#)

### **Jersey**

Mae'n rhaid i unrhyw eiddo a ddefnyddir fel gwesty, tŷ llety, uned hunanddarpar, hostel neu faes gweryslla gael ei gofrestru fel llety i dwristiaid.

Cyn cofrestru, mae'n rhaid i'r safleoedd hyn gael eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Gorchymyn Twristiaeth (Darpariaethau Cyffredinol) (Jersey) 1990.

Mae mwy o fanylion ar gael [yma](#) .

### **Gweriniaeth Iwerddon**

O dan Gyfraith Iwerddon, mae Deddfau Traffig Twristiaeth 1939-2016 yn gymwys i'r sectorau canlynol ac mae cyfrifoldebau penodol ar Fáiite Ireland am eu cofrestru a'u graddio:

- Meysydd carafanau a gweryslla
- Tai llety
- Gwerysllloedd gwyliau
- Hosteli gwyliau
- Gwestai
- Fflatiau gwyliau hunanddarpar cofrestredig
- Bythynnod gwyliau hunanddarpar cofrestredig
- Hosteli ieuenctid

Mae gwefan [Fáiite Ireland](#) yn cynnwys manylion am y rheoliadau ac am gofrestru i gael gwybodaeth am bob adran.